Y Deg Gorchymyn – Mererid Hopwood

Cyngor chwaer fawr i chwaer fach sy'n dechrau ysgol uwchradd

Rheol rhif un
Rhaid gwisgo dy dei
yn fyr, ok?

Rheol rhif dau
Rhaid cadw gwm cnoi
yn dy fag ysgol cwl,
dim sachell ledr
a DIM CAGŴL.

Rheol rhif tri
Sgert mini bob amser
a'i gwisgo â hyder.

Rheol rhif pedwar
Sodlau!

Rheol rhif pump
Gwisg fathodynnau
Ond dim ond un neu ddau.

Rheol rhif chwech
Paid gwisgo cot –
hyd yn oed
os yw hi'n
bwrw glaw
lot.

Rheol rhif saith
Gwna dy waith!

Rheol rhif 6
Ond paid â gwneud llwyth.

Rheol rhif naw
Cofia – beth bynnag a ddaw
mae'n hysgol ni yn holll WAW!

Rheol rhif deg
A phan rym ni'n colli
mewn rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd a hoci,
neu pan ddaw'r côr yn olaf yn y
'steddfod sir –
mae rheol rhif naw yn aros yn wir.

Caneuon y Coridorau (Gwasg Carreg Gwalch/CBAC, 2005)

Ar lan yr afon – Tudur Dylan Jones

Tra bod rhai yn hoff o chwarae rygbi,
neu golff neu denis, pêl droed neu hoci,

roedd yn well gen innau ddilyn afon
efo rycsac a phicnic, roedd hynny'n ddigon,

gwialen bysgota, ac ambell fwydyn,
ac aros i'r pysgod gydio'n y bachyn.

Treulio trwy'r dydd yn gwylio'r tonnau,
a'r diwrnod cyfan yn mynd fel eiliadau.

Mae gen i hiraeth am yr afon heno,
ac wrth edrych nôl, be dwi wir yn ei gofio...

nid nifer y pysgod a ges i o'r lli
ond cael amser i siarad, dim ond dad a fi.

Geiriau Bach Chwareus (Gwasg Carreg Gwalch, 2016)

Tro Gwael – Gwennan Evans

Gwisgodd ei grys West Ham
er ei fod yn rhy fach yn barod,
i ddangos fod yr anrheg
pen-blwydd yn plesio.

Daeth â'i albwm sticeri
fel y gwelai mor ddiwyd y bu.

Bu'n ymarfer,
yn gyrru'i fam o'i cho'
â sŵn y bêl
yn dyrnu talcen y tŷ.

A neithiwr
gwyliodd y gêm
fel bod ganddo sgwrs.

Ond ar ben ei hun
ar fainc yn y parc
y treuliodd y bore
yn magu'r bêl yn ei gôl.

Pigion y Talwrn [13] (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)

Nyth – Roger Jones

Ni fu saer na'i fesuriad yn rhoi graen
Ar ei grefft a'i drwsiad;
Dim ond adar mewn cariad
Yn gwneud tŷ heb ganiatâd.

Y Flodeugerdd Englynion Newydd (Cyhoeddiadau Barddas, 2009)

Grisiau – Mari George

(Mehefin 24ain, 2016, yn dilyn pleidlais Brexit)

Mae e'n codi'n y nos
i eistedd ar y gris isa
a galw amdana' i,
ei ofnau'n newid siâp bob tro
fel y lleuad.

A dw i'n cario atebion
yn ôl i'r llofft,
yn addo eto,
y daw'r bore.

Ond heno,
dw i'n hŷn dan ei gwestiynau,
felly steddwn gyda'n gilydd
ar ebychiad o ris
ac yntau'n fy ngwylio'n
brathu
ewin o leuad.

Pigion y Talwrn [13] (Cyhoeddiadau Barddas, 2016)